Coleg Llandrillo | Coleg Menai | Coleg Meirion Dwyfor | Busnes@ LlandrilloMenai

DY BENNOD NESAF

GWNA GAIS RŴAN
GWNA GAIS RŴAN

CYRSIAU LEFEL PRIFYSGOL LLEOL
GWNA'R COLEG YN DDEWIS CYNTAF AR GYFER DY ADDYSG UWCH

gllm.ac.uk/graddau

CYNNWYS

03	Dy Bennod Nesaf
04	Pam Dewis Y Coleg Ar Gyfer Cyrsiau Lefel Prifysgol?
06	Astudio'n Lleol
08	Cefnogaeth Ragorol I Fyfyrwyr
10	Ariannu Dy Bennod Nesaf
12	Arweiniad I Gyrsiau Lefel Prifysgol
14-23	Ein Cyrsiau Lefel Prifysgol
24	Sut I Wneud Cais?

Yn y llawlyfr hwn cewch fanylion y cyrsiau lefel prifysgol, yn cynnwys graddau, Tystysgrifau Cenedlaethol Uwch, Tystysgrifau Addysg Uwch, prentisiaethau gradd a chymwysterau proffesiynol, a gynigir ar draws gogledd a gogledd-orllewin Cymru gan Goleg Llandrillo, Coleg Meirion-Dwyfor, Coleg Menai a Busnes@Llandrillo Menai – y tri choleg sydd gyda'i gilydd yn ffurfio Grŵp Llandrillo Menai, un o grwpiau colegol mwyaf y Deyrnas Unedig.

Rydym yn cynnig dewis helaeth o gymwysterau lefel uwch, yn cynnwys Graddau Sylfaen a Graddau Anrhydedd, sydd wedi cael eu dilysu'n bennaf gan Brifysgol Bangor.

Mae llawer o'n cyrsiau'n arwain at gymwysterau Addysg Uwch galwedigaethol sydd wedi cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â chyflogwyr. Eu bwriad yw rhoi i chi'r sgiliau a'r wybodaeth y mae ar gyflogwyr eu hangen a'ch helpu, p'un a ydych yn symud ymlaen i gyflogaeth neu'n awyddus i wella eich sgiliau a'ch gyrfa.

Os ydych eisoes mewn gwaith ond yn awyddus i newid gyrfa neu i gael dyrchafiad, mae amserlenni ein cyrsiau yn hwylus i bobl sy'n gweithio ac i rai sy'n magu plant, gan ei gwneud yn haws i chi gyfuno eich astudiaethau â'ch ymrwymiadau eraill.

Pa gymhwyster bynnag a ddewiswch, gallwn eich sicrhau y bydd safon yr addysgu'n ardderchog ac y cewch gefnogaeth bersonol.

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Pearson Edexcel

QAA UK Quality Assured

GWNA GAIS RHWAN

DY BENNOD NESAF

CANLLAWIAU CWRS LEFEL PRIFYSGOL

Gwrandewch ar ragor o straeon ein myfyrwyr ar ein sianel YouTube:

CYFRIFIADURA A DATBLYGU GEMAU

IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT

Stori Kelly a Sarah...

Graddiodd Kelly a Sarah Kynaston gyda gradd 2:1 o'r cwrs BA (Anrh) Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngholeg Llandrillo – ar ôl i'r ddwy benderfynu gwneud y cwrs ar ôl dod i ddiwrnod agored gyda'i gilydd.

Meddai Kelly:
"Ro'n i wedi bod eisiau mynd i'r brifysgol ers blynyddoedd. Mi wnes i gwblhau fy Lefel A, ond cafodd fy mhlentyn cyntaf ei eni tra o'n i'n gwneud hynny, felly dechreuais weithio'n fuan wedyn.

"Rydw i'n byw yn Llandudno ac mae fy mhlant yn mynd i'r ysgol ym Mae Colwyn. Pe na bai'r cwrs ar gael mor agos i gartref, fyddwn i ddim wedi gallu ei wneud. Felly rydw i'n ddiolchgar iawn i Goleg Llandrillo ac rydw i'n falch nad ydy'r gwaith a wnes i ar gyfer fy Lefel A wedi mynd yn wastraff."

Meddai Sarah:
"Doeddwn i ddim wedi bwriadu gwneud cwrs gradd a dweud y gwir. Ro'n i'n edrych fwy ar wasanaethau cyhoeddus neu blismona. Ond ar y diwrnod agored, esboniodd arweinydd y rhaglen ei fod yn gwrs llwybr gyda modiwlau gwahanol yn ymdrin ag amrywiol agweddau."

"Mi ddaliodd hynny ein sylw ni - oherwydd er ein bod ni eisiau gwneud pethau gwahanol roedd yn golygu y gallem ni wneud yr un cwrs.

"Roedd pawb ar ein cwrs yn dda am ysgogi ei gilydd a helpu ei gilydd. Roedd cael fy chwaer ar y cwrs gyda mi yn fantais ychwanegol. Byddem ni'n dweud wrth ein gilydd, 'Os alla i wneud hyn, mi elli di hefyd' neu byddai un ohonom ni'n casglu'r plant i'r llall allu gorffen aseiniad. Roedd hi'n wych cael y gefnogaeth ychwanegol yna."

PAM DEWIS Y COLEG AR GYFER CYRSIAU LEFEL PRIFYSGOL?

Dyma rai rhesymau pam y dylech chi ddilyn cwrs lefel prifysgol gyda ni:

ENW DA

Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) yn adolygu darparwyr ac yn cadarnhau ansawdd uchel ein cyrsiau. Rydym wedi derbyn cymeradwyaeth yr Asiantaeth am 'wella cyfleoedd dysgu i fyfyrwyr'.

QAA
UK Quality Assured

STAFF ADDYSGU ARBENIGOL

Mae gan ddarlithwyr ein cyrsiau lefel prifysgol lawer o brofiad o addysgu ar lefel uwch. Mae gan lawer o'n staff gymwysterau lefel uwch fel graddau Doethuriaeth a Meistr ac mae rhai ohonynt wedi bod yn rhan o waith ymchwil mewn prifysgolion. Fel myfyriwr lefel prifysgol, byddwch yn elwa ar brofiad galwedigaethol helaeth ein staff sydd un ai wedi gweithio mewn swyddi uwch mewn diwydiant neu'n parhau i wneud hynny.

CANLYNIADAU LLWYDDIANNUS

Mae ein myfyrwyr yn cael canlyniadau academaidd rhagorol yn rheolaidd. Yn 2023, llwyddodd bron i ddwy ran o dair, neu 63% o'n myfyrwyr gradd i gael un ai gradd anrhydedd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uwch. Cafodd 62% o'n myfyrwyr radd Rhagoriaeth neu Deilyngdod. Mae'r canlyniadau hyn yn rhoi mantais gystadleuol i'n graddedigion yn y gweithle - gan helpu i wella eu cyfleoedd o ran gyrfa a chyflog.

CYFLEOEDD GWAITH

Datblygir ein cyrsiau lefel prifysgol mewn ymgynghoriad â chyflogwyr lleol er mwyn sicrhau eich bod yn meithrin y sgiliau diweddaraf sydd eu hangen ar gyflogwyr. Rydym yn adolygu ein cyrsiau'n gyson i sicrhau eu bod yn arwain at gyfleoedd gwaith go iawn. Mae ein rhaglenni hefyd yn cynnwys profiad gwaith, lleoliadau gwaith, siaradwyr gwadd ac ymweliadau.

CEFNOGAETH

Rydym yn cynnig cymuned gynnes a chroesawgar i'n holl fyfyrwyr. Byddwch yn cael Tiwtor Personol ymroddedig ac mae ein dosbarthiadau bach yn golygu y bydd mwy o amser yn cael ei neilltuo i roi cefnogaeth ac arweiniad unigol i chi. Gall staff cyfeillgar a gwybodus y Gwasanaethau i Ddysgwyr hefyd eich cynorthwyo gyda'ch CV a'ch technegau cyfweliad, yn ogystal â rhoi cyngor gyrfaol i chi.

FFIOEDD FFORDDIADWY

Does dim i'w dalu ymlaen llaw, a byddwch yn gallu cael mynediad at amrywiaeth o fenthyciadau, grantiau a bwrsarïau myfyrwyr i'ch helpu yn ariannol yn ystod eich astudiaethau. Os byddwch yn byw gartref, gallwch hefyd arbed rhai miloedd o bunnau gan na fydd angen i chi dalu'r costau llety y mae'n rhaid i fyfyrwyr sy'n byw oddi cartref eu talu.

DILYNIANT

Mae ein holl gyrsiau Gradd Sylfaen yn cyfateb i ddwy flynedd gyntaf cwrs gradd llawn ac yn eich galluogi i fynd ymlaen i ddilyn cwrs gradd anrhydedd. Mae'r rhan fwyaf o'r cyfleoedd hyn ar gael yma, neu o bryd i'w gilydd ym Mhrifysgol Bangor. Mae ein rhaglenni eraill yn cynnig dilyniant academaidd amlwg, ac mae llawer o raddedigion yn cael dyrchafiad i swydd well neu'n symud i swydd sydd wrth fodd eu calon.

CYFLEUS A HYBLYG

Mae ein hamserlenni wedi'u cynllunio i'w gwneud yn haws i chi gyfuno'ch astudiaethau â'ch swydd, eich cyfrifoldebau teuluol a'ch ymrwymiadau eraill. Cynhelir ein holl gyrsiau llawn amser a rhan-amser dros un neu ddau ddiwrnod yr wythnos yn unig, ac mae rhai ohonynt ar gael fin nos.

Y GYMRAEG

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg, ac rydym yn darparu cyfleoedd i bob myfyriwr lefel prifysgol gael ei asesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae rhai o'n cyrsiau'n cael eu haddysgu'n ddwyieithog hefyd, ac mae bwrsari'r Gymraeg ar gael i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg.

BODDHAD MYFYRWYR

Yn 2022-23, sgoriodd ein dysgwyr ansawdd y Ddarpariaeth Addysg Uwch yn **83%** yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, **13% yn uwch na chyfartaledd y sector yn y Deyrnas Unedig**.

Mae'r canlyniadau hyn yn ein rhoi ni ar y brig yng ngogledd Cymru, ac **ymhlith y tri darparwr lefel prifysgol uchaf yng Nghymru**.

83%

ASTUDIO'N LLEOL

Gallwch ddilyn cwrs gradd yma ar garreg eich drws, heb orfod symud i fynd i brifysgol.

Darperir llawer o'r cyrsiau yn y Ganolfan Brifysgol yn Llandrillo-yn-Rhos, ac mae rhai rhaglenni ar gael yn lleol ar ein campysau ym Mangor, Dolgellau, Llangefni a'r Rhyl.

LLANGEFNI

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae campws Llangefni wedi elwa ar fuddsoddiad helaeth, ac mae'n cynnig cyrsiau gradd mewn astudiaethau plentyndod, adeiladu, peirianneg a gofal cymdeithasol.

DOLGELLAU

Ar gampws Dolgellau ceir cyfleoedd i ddilyn rhaglenni gradd amrywiol drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys cyrsiau ym maes Busnes a Rheoli, Gwyddor Chwaraeon, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Hyfforddiant Athrawon.

BANGOR

Ar gampws Parc Menai, ceir sawl cwrs celf a dylunio lefel prifysgol. Mae cyrsiau hyfforddi athrawon ar gael hefyd. Cynigir llawer o'r cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg.

LLANGEFNI

BANGOR

LLANDRILLO-YN-RHOS

Y RHYL

PARC CENEDLAETHOL ERYRI

DOLGELLAU

LLANDRILLO-YN-RHOS

Adeiladwyd y Ganolfan Brifysgol ar ein campws yn Llandrillo-yn-Rhos mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor ac mae'n gartref i bron i 1,000 o ddysgwyr. Yn y ganolfan, ceir theatrau darlithio ac ystafelloedd seminar pwrpasol, ystafelloedd astudio y gellir eu harchebu ac adnoddau llyfrgell arbenigol sy'n darparu cyfleusterau dysgu ac addysgu sydd wedi'u teilwra i fyfyrwyr lefel prifysgol mewn un adeilad.

Y RHYL

Ar gampws modern y Rhyl yn ddiweddar mae canolfan beirianneg newydd sbon wedi cael ei hagor. Gan gynnig cyrsiau cwnsela a pheirianneg, mae'r campws yn rhoi cyfle i drigolion lleol ddilyn cwrs lefel prifysgol ar garreg eu drws.

Gwnewch gais ar-lein:

gllm.ac.uk

CEFNOGAETH RAGOROL I FYFYRWYR

Dyfarnodd arolygiad diwethaf y llywodraeth bod safon y gofal, y gefnogaeth a'r arweiniad a roddwn i fyfyrwyr yn 'rhagorol' - felly cewch bob gofal yn ystod eich amser yn y coleg.

TIWTOR PERSONOL

Fel myfyriwr lefel prifysgol, bydd eich Tiwtor Personol yn eich helpu i ymgynefino â bywyd yn y coleg a bydd yn cynllunio ac adolygu eich cynnydd er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn cyrraedd eich targedau.

CYMORTH DYSGU

Gall y Tîm Cymorth Dysgu helpu gyda chyfarpar ac asesiadau arbenigol ar gyfer anawsterau penodol fel dyslecsia. Gallwn hefyd helpu i wneud trefniadau ychwanegol gyda byrddau arholi.

CYFLEUSTERAU A CHYMORTH I BOBL ANABL

Mae'r colegau'n gwbl gynhwysol ac yn darparu cyfle cyfartal i bawb. Gall pob campws ddarparu cymorth pwrpasol i ddysgwyr sydd â nam ar eu golwg neu ar eu clyw neu sydd angen help llaw i symud o gwmpas.

CYMORTH A CHWNSELA LLES CYFRINACHOL

Mae cymorth ar gael i fyfyrwyr a all fod yn wynebu anawsterau personol, emosiynol a/neu anawsterau'n gysylltiedig â'u lles. Mae staff cymwysedig wrth law i gynnig cefnogaeth gyfrinachol i'ch helpu drwy gyfnod anodd neu argyfwng personol.

TÎM Y GWASANAETHAU I DDYSGWYR

Pa gampws bynnag y byddwch yn ei fynychu, bydd y Tîm Gwasanaethau i Ddysgwyr yn siop un stop i chi gael gwybodaeth am bob math o bynciau:

- Cyngor ynghylch gwneud cais am gyrsiau a gofynion mynediad
- Gwybodaeth am ffioedd cyrsiau, benthyciadau a grantiau
- Cyngor gyrfaol
- Cyfleoedd o ran gwaith a lleoliadau gwaith i raddedigion
- Iechyd a lles

Cymraeg

ASTUDIO YN Y GYMRAEG

Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi ymrwymo i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg ac rydym yn darparu cyfleoedd i bob myfyriwr lefel prifysgol gael ei asesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cynigir rhai cyrsiau'n ddwyieithog ac mae Bwrsari'r Gymraeg gwerth £300 hefyd ar gael i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith sy'n astudio'n llawn amser.

Stori Emma a Shaun...

Dilynodd y cwpl Emma Hickman a Shaun Orr o Minffordd ger Penrhyndeudraeth ill dau gyrsiau Addysg Uwch yr un pryd ar gampws Coleg Meirion-Dwyfor yn Nolgellau. Cafodd Sean HNC mewn Peirianneg, a chafodd Emma radd Sylfaen mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol Dyma

Ddywedon nhw,
"Roeddem wrth ein bodd ein bod yn gallu astudio yn yr un coleg. Roedd yr hyblygrwydd roedd yn ei roi i ni fel teulu yn wych. Byddem yn argymell yn fawr dod yma i astudio!"

Gwrandewch ar ragor o straeon ein myfyrwyr ar ein sianel YouTube:

CHWARAEON

CYFRYNGAU, TELEDU A FFILM

CANLLAWIAU CWRS LEFEL PRIFYSGOL | CEFNOGAETH RAGOROL I FYFYRWYR

ARIANNU DY BENNOD NESAF

Y ddwy brif gost fydd yn wynebu myfyrwyr llawn amser yw ffioedd dysgu a chostau byw. Mae cymorth ariannol ar gael i helpu gyda'r rhain - naill ai trwy fenthyciadau (y byddwch yn eu talu'n ôl) a bwrsarïau neu grantiau (nad ydych yn eu talu'n ôl).

Ceir gwybodaeth am ffioedd dysgu ein cyrsiau lefel prifysgol ar ein gwefan:
gllm.ac.uk/graddau

Ceir rhagor o wybodaeth am gymorth ariannol a sut i wneud cais ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru:
cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk

Bwrsarïau

Mae bwrsari o £1000 ar gael yng Ngrŵp Llandrillo Menai i fyfyrwyr a ddilynodd gwrs Lefel 3 yn y Grŵp ac sy'n symud ymlaen yn uniongyrchol i gwrs lefel prifysgol llawn amser. Yn dibynnu ar eu hamgylchiadau personol, gall bwrsarïau ychwanegol fod ar gael.

- Bwrsari ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf neu MALIC - £300 y flwyddyn
- £300 y flwyddyn i blentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gofal
- Bwrsari'r Gymraeg gwerth £300 y flwyddyn i siaradwyr Cymraeg sy'n astudio rhan sylweddol o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg
- Bwrsariaeth CCAUC ar gyfer Cyflogadwyedd wedi'i Dargedu (symiau amrywiol)

Y COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL:

Mae ysgoloriaethau ar gael i fyfyrwyr ar raglenni penodol sy'n astudio cyfran sylweddol o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bosibl i fyfyrwyr dderbyn £800 os ydynt yn llwyddo i ennill Ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg sy'n werth £500 a Bwrsari'r Gymraeg GLlM sy'n werth £300.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i:
colegcymraeg.ac.uk

*Mae'r wybodaeth yn gywir ar adeg ysgrifennu'r llyfryn hwn.

CYLLID MYFYRWYR
- ASTUDIAETHAU ACHOS

CLAIRE

Yn 36 oed, mae Claire wedi dychwelyd i astudio'n llawn amser ar y cwrs Gradd Sylfaen mewn Rheoli Busnes. Mae'n byw gyda'i gŵr a dau o blant:

Bydd Claire yn derbyn (ar sail lwfansau cyllido 2023/24):

- Benthyciad ffioedd dysgu i dalu cost lawn ei ffioedd (£8,300)
- £1,896 y flwyddyn o Lwfans Rhieni sy'n Dysgu
- £3,322 y flwyddyn o Grant Oedolion Dibynnol am fod ei gŵr yn ennill llai na swm penodol o gyflog
- £321 yr wythnos i dalu costau gofal plant ar gyfer ei dau blentyn – meithrinfa, a chlwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol
- £11,720 o gymorth cynhaliaeth (benthyciad a grant)
- Brecwast iach AM DDIM bob bore

MARK

Mae Mark yn 18 oed ac yn symud ymlaen i gwrs arall yn y coleg – o gwrs Lefel 3 mewn Chwaraeon i astudio'n llawn amser ar y cwrs Gradd Sylfaen mewn Chwaraeon. Mae'n astudio rhan o'i gwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oes ganddo blant ac mae'n byw gartref gyda'i rieni.

Bydd Mark yn derbyn (ar sail lwfansau cyllido 2023/24):

- Benthyciad ffioedd dysgu i dalu cost lawn ei ffioedd (£8,300)
- £9,950 o gymorth cynhaliaeth (benthyciad a grant)
- £1,000 Bwrsari Dilyniant
- £300 Bwrsari'r Gymraeg (am astudio rhan o'i gwrs yn y Gymraeg)
- Brecwast iach AM DDIM bob bore

RHAGOR O WYBODAETH

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am yr ystod o gymorth ariannol sydd ar gael i chi, neu os oes angen cymorth arnoch i wneud cais am gyllid, anfonwch neges e-bost i **graddau@gllm.ac.uk**

ARWEINIAD I GYRSIAU LEFEL PRIFYSGOL

GRADDAU ANRHYDEDD

Rydym yn cynnig dewis eang o Raddau Anrhydedd, a ddilyswyd ac a ddyfernir yn bennaf gan Brifysgol Bangor. Fel arfer, mae ein dysgwyr yn dechrau trwy ddilyn cwrs Gradd Sylfaen ar Lefel 4 a 5, ac yna'n mynd ymlaen i Radd Atodol Lefel 6. Mae mwyafrif ein rhaglenni gradd atodol yn cael eu darparu dros gyfnod o flwyddyn i fyfyrwyr llawn amser neu dros gyfnod mwy hyblyg o ddwy flynedd i fyfyrwyr rhan-amser. Yn ogystal, rydym yn cynnig dewis cyfyngedig o gyrsiau Gradd Anrhydedd tair blynedd, sydd wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr sydd angen mwy o hyblygrwydd. Ar y cyfan, cwblheir y rhaglenni cynhwysfawr hyn dros dair blynedd ar gyfer myfyrwyr llawn amser neu cânt eu hymestyn dros bedair, pump neu chwe blynedd ar gyfer y rhai sy'n dewis astudio'n rhan-amser.

GRADDAU SYLFAEN

Mae ein Graddau Sylfaen yn werth 240 o gredydau Addysg Uwch, sy'n cynnwys 40 credyd o ddysgu seiliedig ar gyflogadwyedd. Yn wahanol i raglenni israddedig arferol, mae Graddau Sylfaen yn canolbwyntio ar gyfuno theori â gwaith ymarferol mewn lleoliadau byd go iawn. Mae hyn yn sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth a'r sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt, gan helpu i wella'ch rhagolygon cyflogaeth a'ch paratoi ar gyfer mwy o gyfrifoldebau a chyfleoedd i ddatblygu gyrfa. Datblygwyd ein holl gyrsiau Gradd Sylfaen fel eu bod yn cynnig llwybrau dilyniant clir i gyrsiau Gradd Anrhydedd – un ai yng Ngrŵp Llandrillo Menai neu yn un o'r sefydliadau sy'n bartneriaid i ni.

TYSTYSGRIF NEU DDIPLOMA GENEDLAETHOL UWCH (HNC/HND)

Mae ein cyrsiau Tystysgrif neu Ddiploma Genedlaethol Uwch (HNC/HND) wedi'u cynllunio ar gyfer y rhai sydd am gael cymhwyster lefel prifysgol sy'n gysylltiedig â byd gwaith. Mae myfyrwyr llawn amser yn astudio cwrs HND/HNC am gyfnod o flwyddyn a myfyrwyr rhan-amser yn gwneud hynny am ddwy flynedd. Mae'r cyrsiau'n cynnig dull ymarferol a chymhwysol o ddysgu, gan roi i chi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnoch ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol. Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, mae llwybrau dilyniant ar gael i gyrsiau Gradd Sylfaen neu Brentisiaethau Gradd ar Lefel 5 neu 6.

PRENTISIAETHAU GRADD

Gan fod Prentisiaethau Gradd yn cael eu hariannu'n llawn yng Nghymru ni fyddwch yn talu unrhyw ffioedd o gwbl! Mae prentisiaethau gradd yn cynnig llwybr gwahanol i brifysgol trwy gyfuno gwaith llawn amser ag astudio'n rhan-amser.

- **Ennill cyflog wrth ddysgu** – Fel Prentis Gradd bydd eich cwrs yn cael ei gyfuno â'ch cyflogaeth, felly byddwch yn ennill cyflog tra hefyd yn astudio.
- **Cymhwyster diwydiannol** – Mae'ch cwrs yn uniongyrchol berthnasol i'ch diwydiant, felly rydych chi a'ch cyflogwr yn meithrin y sgiliau sydd arnoch eu hangen i lwyddo.
- **Sgiliau cyflogadwyedd** – Mae Prentisiaeth Gradd yn caniatáu i chi barhau i gael profiad gwaith ymarferol a datblygu eich gyrfa

I gael lle ar gwrs Prentisiaeth Gradd bydd angen i chi fod yn gweithio un ai'n llawn amser neu'n rhan-amser (o leiaf 16 awr yr wythnos) mewn diwydiant peirianneg/digidol/TG perthnasol. Ym mlwyddyn olaf eich Prentisiaeth Gradd, byddwch yn symud i Brifysgol Bangor i astudio am ddiwrnod yr wythnos i gwblhau'r cymhwyster BSc/BA (Anrh). Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn gradd o Brifysgol Bangor yn y Seremoni Raddio flynyddol.

CYRSIAU PROFFESIYNOL

Ymhlith yr amrywiaeth o gyrsiau proffesiynol lefel uwch yr ydym yn eu cynnig, mae cymwysterau gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig fel yr AAT (Association of Accounting Technicians), yr ILM (Institute of Leadership & Management), y CIM (Chartered Institute of Marketing) a'r CIPD (Chartered Institute of Personnel and Development). Mae'r cyrsiau hyn wedi'u teilwra i wella eich arbenigedd a'ch medr mewn meysydd amrywiol, a chael cymeradwyaeth gan gyrff proffesiynol sy'n uchel iawn eu parch. P'un a ydych yn dilyn cyrsiau cyfrifyddu, arweinyddiaeth, marchnata, neu ddatblygu adnoddau dynol, mae ein cyrsiau proffesiynol lefel uwch wedi'u cynllunio i'ch arfogi â'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer llwyddiant yn eich dewis broffesiwn. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r wefan: **gllm.ac.uk/busnes**

CANLLAWIAU CWRS LEFEL PRIFYSGOL | GYRSIAU LEFEL PRIFYSGOL

EIN CYRSIAU LEFEL PRIFYSGOL

Mae ein dewis amrywiol o gyrsiau lefel prifysgol wedi cael eu datblygu i ddiwallu anghenion ein myfyrwyr; mae'r rhain yn cynnwys dysgwyr mwy aeddfed sy'n dychwelyd i addysg a'r rhai sy'n symud ymlaen o gyrsiau Lefel 3.

Mae ein cyrsiau yn neilltuol o addas i'r rhai sydd â chyfrifoldebau teuluol neu gyfrifoldebau gwaith. P'un a ydych yn dewis yr hwylustod o astudio am ddiwrnod neu ddau'r wythnos neu mewn dosbarthiadau nos, rydym yn deall bod hyblygrwydd yn bwysig, a thrwy ddewis astudio'n lleol gallwch wireddu eich uchelgais addysg uwch heb orfod cyfaddawdu ar eich ymrwymiadau.

Mae ein cyrsiau'n cynnig llwybr i ddatblygiad academaidd a phroffesiynol ynghyd â chydbwysedd perffaith i'r rhai sy'n dymuno astudio'n agos at adref. Mae'r ymrwymiad hwn i hygyrchedd a hyblygrwydd yn ymestyn ar draws ein holl gyrsiau lefel prifysgol, gan gynnwys y rhaglenni a ddilyswyd gan sefydliadau fel Prifysgol Bangor.

Mae'r adran ganlynol yn rhoi manylion y cyrsiau sector benodol rydym ni'n eu cynnig.

EIN CYRSIAU LEFEL PRIFYSGOL

CELF, DYLUNIO A FFOTOGRAFFIAETH

Gellir dilyn ein cyrsiau gradd ym maes Celf, Dylunio a Ffotograffiaeth yn llawn amser neu'n rhan-amser, ac maent wedi cael eu cynllunio'n benodol i'ch paratoi ar gyfer cyflogaeth yn un o'r disgyblaethau creadigol hyn. Maent yn addas ar gyfer amrediad o fyfyrwyr sy'n amrywio o ran eu cefndiroedd academaidd a chreadigol.

Rydym yn cynnig y cyrsiau canlynol:

- BA (Anrh) Celf a Dylunio
- BA (Anrh) Celfyddyd Gain
- BA (Anrh) Ffotograffiaeth
- Gradd Sylfaen (FdA) Celf a Dylunio
- Gradd Sylfaen (FdA) Ffotograffiaeth

Darganfyddwch fwy a gwnewch gais heddiw trwy sganio'r Cod QR yma:

Darganfyddwch fwy a gwnewch gais heddiw trwy sganio'r Cod QR yma:

BUSNES A RHEOLI

Mae gwasanaethau ariannol, proffesiynol a threfnu digwyddiadau yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi gogledd Cymru ac yn feysydd cyflogaeth allweddol yn yr ardal.

Mae ein rhaglenni busnes llawn amser yn dilyn patrwm undydd fel arfer (9am-9pm) ac yn addas i unrhyw un sy'n awyddus i gael swydd well yn eu sefydliad presennol, sy'n chwilio am gyfleoedd newydd o ran gyrfa, sydd am sefydlu eu busnes eu hunain neu ddim ond am feithrin sgiliau rheoli.

Rydym yn cynnig y cyrsiau canlynol:

- BA (Anrh) Rheoli Busnes
- BA (Anrh) Twristiaeth, Lletygarwch a Rheoli Digwyddiadau (yn amodol ar ddilysiad a chymeradwyaeth)
- Gradd Sylfaen (FdA) Rheoli Busnes
- Gradd Sylfaen (FdA) Twristiaeth, Lletygarwch a Rheoli Digwyddiadau (yn amodol ar ddilysiad a chymeradwyaeth)

Gwnewch gais ar-lein:
gllm.ac.uk

ASTUDIAETHAU PLENTYNDOD AC ADDYSG

Mae ein rhaglenni astudiaethau plentyndod ac addysg yn cynnig dilyniant a chyfleoedd datblygu personol a phroffesiynol i'r rhai sydd wedi astudio cyrsiau gofal plant yn flaenorol, ac i'r rhai sy'n gweithio yn y sectorau gofal plant neu addysg.

Mae'r wybodaeth a'r sgiliau a feithrinir trwy gydol y rhaglen yn golygu y bydd graddedigion mewn sefyllfa dda i weithio gyda babanod, plant ifanc, eu teuluoedd a'r proffesiwn gofal plant ac addysg.

Cynhelir y rhaglen hon ddwy noson yr wythnos rhwng 4pm a 9pm i ddysgwyr amser llawn, ac un noson yr wythnos i ddysgwyr rhan-amser.

Rydym yn cynnig y cyrsiau canlynol:

- BA (Anrh) Addysg ac Astudiaethau Plentyndod
- Gradd Sylfaen (FdA) Addysg ac Astudiaethau Plentyndod

Darganfyddwch fwy a gwnewch gais heddiw trwy sganio'r Cod QR yma:

Darganfyddwch fwy a gwnewch gais heddiw trwy sganio'r Cod QR yma:

CYFRIFIADURA, TECHNOLEGAU DIGIDOL A DATBLYGU GEMAU

Mae cynnydd yn y galw am sgiliau digidol mewn meysydd fel rhaglennu cyfrifiaduron a darparu gwasanaethau gwybodaeth yng ngogledd Cymru er mwyn gallu dal i fyny gyda'r datblygiadau cyflym sy'n digwydd mewn technoleg.

Rydym yn cynnig y cyrsiau canlynol:

- BSc (Anrh) Animeiddio 3D a Datblygu Gemau
- BSc (Anrh) Cyfrifiadura (Datblygu Meddalwedd)
- Gradd Sylfaen (FdSc) Animeiddio 3D a Datblygu Gemau
- Gradd Sylfaen (FdSc) Cyfrifiadura (Datblygu Meddalwedd)
- BSc (Anrh) Peirianneg Meddalwedd Gymhwysol - Prentisiaeth Gradd
- BSc (Anrh) Seiberddiogelwch Cymhwysol - Prentisiaeth Gradd
- BSc (Anrh) Gwyddor Data Gymhwysol - Prentisiaeth Gradd

ADEILADU A'R AMGYLCHEDD ADEILEDIG

Yn ôl cyflogwyr, yr heriau sy'n wynebu'r diwydiant adeiladu yng ngogledd Cymru yw'r angen i wella sgiliau digidol y gweithlu presennol a gweithwyr newydd mewn swyddi goruchwylio a rheoli. Y meysydd sydd fwyaf o angen gweithwyr medrus yw cyllid, dylunio a chynnal a chadw.

Rydym yn cynnig y cyrsiau canlynol:

- BSc (Anrhydedd) mewn Rheoli ym maes Adeiladu
- Gradd Sylfaen (FdSc) Adeiladu
- Tystysgrif Addysg Uwch mewn Peirianneg Sifil
- Tystysgrif Addysg Uwch ym maes Adeiladu

Darganfyddwch fwy a gwnewch gais heddiw trwy sganio'r Cod QR yma:

CWNSELA

Mae ein rhaglenni cwnsela yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddod yn gwnselwyr medrus a chymwys, ac i wella eu cyfleoedd cyflogaeth. Bydd y dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu proffesiynol a phersonol er mwyn gallu bod yn gwnselwyr annibynnol sy'n gweithio'n unol â fframwaith moesegol ac arferion da BACP (British Association of Counselling and Psychotherapy).

Darganfyddwch fwy a gwnewch gais heddiw trwy sganio'r Cod QR yma:

Mae'r cwrs BSc a'r cwrs Gradd sylfaen yn cael eu cynnal ddwy noson yr wythnos rhwng 9am a 9pm i ddysgwyr llawn amser, ac un noson yr wythnos i ddysgwyr rhan-amser. Bydd y cwrs rhan amser i gael Tystysgrif Addysg Uwch mewn Cwnsela yn cael ei gynnal un noson yr wythnos rhwng 4pm a 9pm.

Rydym yn cynnig y cyrsiau canlynol:

- BSc (Anrh) Cwnsela
- Gradd Sylfaen (FdSc) Cwnsela
- Tystysgrif Lefel 6 mewn Goruchwylio ym maes Cwnsela Therapiwtig (TCSU-L6)
- Diploma Lefel 5 CPCAB mewn Sgiliau a Theori Therapi Ymddygiad Gwybyddol
- Cymhwyster Lefel 5 CPCAB mewn Cwnsela ym maes Plant a Phobl Ifanc
- Tystysgrif Addysg Uwch mewn Cwnsela

Gwnewch gais ar-lein:
gllm.ac.uk

EIN CYRSIAU LEFEL PRIFYSGOL

ASTUDIAETHAU BYDDARDOD AC IAITH ARWYDDION

Mae ein rhaglenni gradd mewn Iaith Arwyddion Prydain ac Astudiaethau Byddardod yn addas i'w sawl sydd â diddordeb mewn dechrau neu ddatblygu gyrfaoedd yn y maes. Bydd yn meithrin eich sgiliau a'ch gwybodaeth, ac yn eich paratoi ar gyfer gyrfa mewn amrywiaeth o swyddi proffesiynol lle byddwch yn gweithio gyda phobl fyddar.

Rydym yn cynnig y cwrs canlynol:

- Gradd Sylfaen (FdA) mewn Iaith Arwyddion Prydain ac Astudiaethau Byddardod

Darganfyddwch fwy a gwnewch gais heddiw trwy sganio'r Cod QR yma:

Darganfyddwch fwy a gwnewch gais heddiw trwy sganio'r Cod QR yma:

PEIRIANNEG

Mae angen rhagor o beirianwyr yng ngogledd-orllewin Cymru i lenwi amrywiaeth eang o swyddi cyffrous sy'n talu'n dda. Mae galw mawr am sgiliau peirianneg i lenwi bylchau yn y diwydiant awyrofod, cerbydau modur ac optoelectroneg.

Rydym yn cynnig y cyrsiau canlynol:

- Tystysgrif Addysg Uwch mewn Peirianneg Sifil
- HNC Peirianneg Gyffredinol
- HND Peirianneg
- Systemau Peirianneg Fecanyddol Gymhwysol - Prentisiaeth Gradd
- Systemau Peirianneg Drydanol/ Systemau Peirianneg Electroneg Gymhwysol - Prentisiaeth Gradd

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

Mae ein rhaglenni iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u hanelu at unrhyw un sydd am feithrin sgiliau a gwybodaeth yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Gallai hyn arwain at ddilyniant gyrfa yn eich sefydliad presennol, cyfleoedd i newid gyrfa, neu astudiaethau pellach i gael cymhwyster BN neu MSc mewn Nyrsio, MA mewn Gwaith Cymdeithasol, MSc mewn Cwnsela neu gymhwyster Addysgu.

Rydym yn cynnig y cyrsiau canlynol:

- BA (Anrh) Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- BA (Anrh) Arweinyddiaeth ym maes Iechyd, Llesiant a Gofal Cymdeithasol (yn amodol ar ddilysiad a chymeradwyaeth)
- Gradd Sylfaen (FdA) Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Gradd Sylfaen (FdA) Arweinyddiaeth ym maes Iechyd, Llesiant a Gofal Cymdeithasol (yn amodol ar ddilysiad a chymeradwyaeth)
- Tystysgrif Addysg Uwch mewn Ymarfer Gofal Iechyd

Darganfyddwch fwy a gwnewch gais heddiw trwy sganio'r Cod QR yma:

Gwnewch gais ar-lein:
gllm.ac.uk

LLETYGARWCH AC ARLWYO

Mae'r sector Lletygarwch yn gyfrannwr allweddol i economi gogledd Cymru ac mae'r galw'n parhau i dyfu. Mae'r galw am weithwyr yn y sectorau hyn yn cynnwys crefftwyr, cogyddion, gweithwyr hamdden a gweithwyr sy'n gwasanaethu cwsmeriaid.

Rydym yn cynnig y cyrsiau canlynol:

- BA (Anrh) Celfyddydau Coginio
- BA (Anrh) Twristiaeth, Lletygarwch a Rheoli Digwyddiadau (yn amodol ar ddilysiad a chymeradwyaeth)
- Gradd Sylfaen (FdA) Celfyddydau Coginio
- Gradd Sylfaen (FdA) Twristiaeth, Lletygarwch a Rheoli Digwyddiadau (yn amodol ar ddilysiad a chymeradwyaeth)

Darganfyddwch fwy a gwnewch gais heddiw trwy sganio'r Cod QR yma:

ASTUDIAETHAU LLYFRGELL A GWYBODAETH

Mae ein cyrsiau gradd rhan-amser ym maes Rheoli Llyfrgelloedd a Gwybodaeth yn eich paratoi ar gyfer swydd broffesiynol mewn llyfrgell neu wasanaeth gwybodaeth, gan ddatblygu eich cyfleoedd a'ch arbenigedd yn y maes.

Caiff y cyrsiau hyn eu hachredu gan CILIP (Chartered Institute of Library and Information Professionals) - dengys hyn fod y cymhwyster yn rhoi sylfaen gadarn i weithwyr proffesiynol ym maes gwybodaeth ac archifau.

Rydym yn cynnig y cyrsiau canlynol:

- BA (Anrh) Rheoli Llyfrgelloedd a Gwybodaeth
- Gradd Sylfaen (FdA) Rheoli Llyfrgelloedd a Gwybodaeth

Darganfyddwch fwy a gwnewch gais heddiw trwy sganio'r Cod QR yma:

CYFRYNGAU, TELEDU A FFILM

Mae angen sgiliau creadigol ar y diwydiannau creadigol fel dylunio, ffilm a theledu, ffotograffiaeth a hysbysebu.

Ar ein cyrsiau gradd mewn cyfryngau creadigol a chyfryngau darlledu cewch feithrin y wybodaeth a'r sgiliau arbenigol y mae gofyn eu cael i wneud amrediad o swyddi cyffrous yn y diwydiant cyfryngau creadigol. Cewch ddefnyddio cyfleusterau gwych y Coleg sy'n cynnwys stiwdio bwrpasol i gynhyrchu ar gyfer y teledu, stiwdio recordio sain, labordy amlgyfrwng, a chamerâu fideo soffistigedig.

Rydym yn cynnig y cyrsiau canlynol:

- BA (Anrh) Cyfryngau Creadigol a Chyfryngau Darlledu
- Gradd Sylfaen (FdA) Cyfryngau Creadigol a Chyfryngau Darlledu

Darganfyddwch fwy a gwnewch gais heddiw trwy sganio'r Cod QR yma:

CELFYDDYDAU PERFFORMIO, CERDDORIAETH A THECHNOLEG CERDDORIAETH

Mae'r myfyrwyr yn meithrin sgiliau actio, technegau perfformio, disgyblaeth annibynnol ac ymarfer proffesiynol, gan eu helpu i fynd ymlaen i astudio mewn coleg drama achrededig.

Mae'r cwrs yn cynnig nifer o fodiwlau craidd sy'n ymwneud â datblygiad proffesiynol ac sy'n arbenigo mewn meysydd fel testunau clasurol, technegau clyweliad, actio o flaen Camera, llais a symudiadau.

Rydym yn cynnig y cwrs canlynol:

- Tystysgrif Addysg Uwch mewn Perfformio ar y Llwyfan a'r Sgrin (yn amodol ar ddilysiad a chymeradwyaeth)

Darganfyddwch fwy a gwnewch gais heddiw trwy sganio'r Cod QR yma:

Gwnewch gais ar-lein:
gllm.ac.uk

Darganfyddwch fwy a gwnewch gais heddiw trwy sganio'r Cod QR yma:

YR HEDDLU A GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Mae Prifysgol Bangor, mewn partneriaeth â Grŵp Llandrillo Menai, yn cynnig cwrs gradd mewn Plismona Proffesiynol sydd wedi ei drwyddedu gan y Coleg Plismona. Bydd hyn yn cyflwyno sgiliau i'r myfyrwyr y byddant eu hangen i fod yn swyddogion heddlu.

Gall gyrfaoedd ym maes plismona gynnwys bod yn swyddogion gweithredol neu swyddi cynorthwyol fel swyddogion mewn ystafelloedd rheoli. Mae swyddi eraill ar gael yn y gwasanaeth prawf yn gyda'r awdurdodau lleol.

Rydym yn cynnig y cwrs canlynol:

- Gradd 'Cyn Ymuno' BSc (Anrh) mewn Plismona Proffesiynol

CHWARAEON AC ADDYSG AWYR AGORED

Mae ein cyrsiau gradd mewn chwaraeon yn addas i ddysgwyr sydd am gael gyrfa ym maes gwyddor chwaraeon, un ai yn y sector hyfforddi chwaraeon neu weithgareddau awyr agored.

Gall myfyrwyr hefyd fynd ymlaen i gyrsiau ôl-raddedig pellach (TAR neu MSc) neu gyflogaeth. Mae rhai hefyd yn cael rhagor o gyfrifoldebau yn y gwaith gan eu bod eisoes yn gweithio yn y sector.

Rydym yn cynnig y cyrsiau canlynol:

- BSc (Anrh) Gwyddor Chwaraeon (Hyfforddi ym maes Chwaraeon)
- Gradd Sylfaen (FdSc) Gwyddor Chwaraeon (Gweithgareddau Awyr Agored)
- Gradd Sylfaen (FdSc) Gwyddor Chwaraeon (Hyfforddi ym maes Chwaraeon)

Darganfyddwch fwy a gwnewch gais heddiw trwy sganio'r Cod QR yma:

HYFFORDDIANT ATHRAWON

Mae ein rhaglenni hyfforddi athrawon yn addas i unigolion sydd am gael gyrfa werth chweil yn addysgu pobl ifanc ac oedolion, neu i'r rhai sydd eisoes yn addysgu, ond a hoffai gael cymhwyster cydnabyddedig.

P'un a ydych yn athro newydd neu'n athro profiadol, bydd ein cyrsiau rhan-amser yn eich helpu i ddatblygu eich gyrfa ym maes addysg ôl-orfodol. Cewch y sgiliau, y wybodaeth a'r cymhwyster a fydd yn eich galluogi i ddechrau neu i barhau i addysgu ym maes addysg bellach, ym maes dysgu oedolion neu ddysgu yn y gymuned, mewn carchardai neu yn y gweithle.

Rydym yn cynnig y cyrsiau canlynol:

- Paratoi i Addysgu
- Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg
- Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg i Raddedigion

Darganfyddwch fwy a gwnewch gais heddiw trwy sganio'r Cod QR yma:

TEITHIO A THWRISTIAETH

Mae ein graddau yn addas i'r sawl sydd â diddordeb mewn dechrau ar yrfa ym maes rheoli yn y diwydiant twristiaeth, lletygarwch a threfnu digwyddiadau. Mae twristiaeth yn gyfrannwr allweddol i economi gogledd Cymru ac mae'r galw'n parhau i dyfu.

Rydym yn cynnig y cyrsiau canlynol:

- BA (Anrh) Twristiaeth, Lletygarwch a Rheoli Digwyddiadau (yn amodol ar ddilysiad a chymeradwyaeth)
- Gradd Sylfaen (FdA) Twristiaeth, Lletygarwch a Rheoli Digwyddiadau (yn amodol ar ddilysiad a chymeradwyaeth)

Darganfyddwch fwy a gwnewch gais heddiw trwy sganio'r Cod QR yma:

Gwnewch gais ar-lein:
gllm.ac.uk

EIN CYRSIAU LEFEL PRIFYSGOL

SUT I WNEUD CAIS

I gael gwybodaeth am sut i wneud cais am gwrs lefel prifysgol llawn amser neu ran-amser, ewch i'n gwefan:

gllm.ac.uk/cy/apply

GOFYNION MYNEDIAD

Mae gofynion mynediad ein cyrsiau lefel prifysgol yn amrywio yn dibynnu ar y rhaglen a ddewiswch.

Mae'r gofynion i'w cael ar dudalennau'r cyrsiau ar ein gwefan, gan gynnwys y pwyntiau tariff UCAS sydd eu hangen i astudio'r rhaglen.

Rydym hefyd yn ystyried ymgeiswyr sydd â phrofiadau bywyd addas.

DIGWYDDIADAU AGORED

Gall dod i'r coleg i astudio fod yn brofiad heriol, ond rydym ni yma i'ch helpu.

Rydym yn cynnal digwyddiadau agored trwy gydol y flwyddyn lle cewch ymweld â'n campysau a siarad â'n staff cyfeillgar am eich dewisiadau.

I gael rhagor o wybodaeth am y dyddiadau a'r amseroedd, ewch i'n gwefan:
gllm.ac.uk/cy/digwyddiadau

CYSYLLTWCH Â NI

Os oes angen cymorth arnoch gyda'ch cais, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am gyrsiau neu gyllid, mae croeso i chi gysylltu â thîm ein Gwasanaethau i Ddysgwyr:

Ffôn: **01492 542 338**
E-bost: **degrees@gllm.ac.uk**
Gwefan: **gllm.ac.uk/graddau**

GWNA GAIS RWAN
GWNA GAIS RWAN

Gwnewch gais ar-lein:
gllm.ac.uk